

**Cofnodion cyfarfod Llys Prifysgol Caerdydd a gynhaliwyd Ddydd Mercher 27 Ionawr 2021, drwy Zoom**

**Materion Rhagarweiniol**

**385 Croeso a chyflwyniad gan y Canghellor**

- 385.1 Cyhoeddodd y Canghellor, y Farwnes Randerson, fod y cyfarfod ar agor, a chroesawu pawb oedd yno;
- 385.2 bod y Canghellor wedi hysbysu'r aelodau o drefn y cyfarfod, oherwydd ei fod yn cael ei gynnal yn rhithiwr;
- 385.3 nododd y Canghellor y gellir gofyn cwestiynau yn Gymraeg ac eglurodd y broses cyfieithu.

**386 Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Nodwyd

- 386.1 y byddai ymddiheuriadau a gadarnhawyd yn cael eu hatodi i'r cofnodion;
- 386.2 bod gan y cyfarfod gworwm.

**387 Datganiad buddiannau**

- 387.1 Dywedodd y Canghellor y dylid nodi unrhyw ddatganiadau am fuddiannau perthnasol cyn i aelod o'r Llys siarad.

**388 Cofnodion: 29 Ionawr 2020**

Nodwyd

- 388.1 y dylai adran 372 ddarllen "Croeso a Chyflwyniad gan y Canghellor".
- Penderfynwyd
- 388.2 yn amodol ar y newid uchod, fod Cofnodion cyfarfod y Llys a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2020 (papur 20/329) wedi'u cadarnhau fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

**389 Materion yn codi**

Nodwyd nad oedd unrhyw faterion yn codi.

**390 Adroddiad gan y Canghellor ar weithgareddau'r Canghellor a'r Rhag-Gangellorion**

Darparodd y Canghellor adroddiad llafar ar yr eitem hon.

Nodwyd

- 390.1 oherwydd cyfyngiadau cymdeithasol, roedd yr adroddiad ar weithgareddau yn fyrrach na blynnyddoedd blaenorol;
- 390.2 bod y Canghellor, ynghyd â'r tri Rhag-gangellorion, wedi recordio negeseuon graddio rhithwir;

- 390.3 y diolchwyd gan y Canghellor i bawb sy'n gweithio i Brifysgol Caerdydd, am sicrhau bod y Brifysgol yn parhau i weithredu a hyd yn oed dyfu yn yr hinsawdd bresennol;
- 390.4 y diolchwyd hefyd i fyfyrwyr y Brifysgol a oedd wedi addasu'n gadarnhaol i'r ffyrdd newydd o weithio;
- 390.5 bod y Canghellor wedi cyfleu ei diolch i'r staff a'r myfyrwyr hynny a fu'n ymwneud â gwaith hollbwysig staff rheng flaen y GIG yn ystod y cyfnod anodd hwn.

### **391 Aelodaeth o'r Llys**

Gofynnwyd i aelodau nodi papur 20/330 'Cyfansoddiad ac Aelodaeth y Llys

Nodwyd

- 391.1 bod y Canghellor wedi croesawu holl aelodau newydd y Llys i'w cyfarfod cyntaf;
- 391.2 bod y Llys yn gorff cynrychioliadol eang, gan roi cyfle ffurfiol i randdeiliaid dderbyn gwybodaeth am waith y Brifysgol ac i godi eitemau o ddiddordeb.

### **392 Adroddiad am Anrhydeddau a Roddwyd a Marwolaethau ers Cyfarfod Diwethaf y Llys**

Gofynnwyd i aelodau nodi papur 20/331 ar 'Anrhydeddau a Ddyfarnwyd a Marwolaethau ers Cyfarfod Diwethaf y Llys'.

Nodwyd

- 392.1 y nifer fawr o anrhydeddau a dyfarniadau a roddwyd i aelodau'r Brifysgol a'r gwaith nodedig a wnaed yn ystod y flwyddyn;
- 392.2 gyda thristwch, yr holl farwolaethau ers cyfarfod diwethaf y Llys;
- 392.3 adroddwyd am dair marwolaeth arall ers cyhoeddi'r papurau:
- .1 Mr Carl Haywood, Swyddog Patrol Campws mewn Ystadau;
  - .2 Mr Layton Skilton, Rheolwr Rhaglen Portffolio CIC yn y Swyddfa Rheoli Rhaglenni;
  - .3 Dr David Lees o Ysgol y Biowyddorau;
- 392.4 cynhaliwyd ennyd o dawelwch er parch i bawb fu farw ers y cyfarfod diwethaf.

### **393 Adroddiad gan Gadeirydd y Cyngor**

Cafodd y llys adroddiad ar lafar gan yr Athro Stuart Palmer, Cadeirydd y Cyngor, oedd yn cwmpasu materion sylweddol mae'r Cyngor wedi'u hystyried ers cyfarfod diwethaf y Llys ym mis Ionawr 2020.

Nodwyd

- 393.1 y diolchwyd gan Gadeirydd y Cyngor i'r Is-Ganghellor, y Dirprwy Is-Ganghellor, y Prif Swyddog Ariannol a'r Prif Swyddog Gweithredu am eu harweinyddiaeth yn ystod y flwyddyn;
- 393.2 y diolchwyd hefyd i staff a myfyrwyr am eu gwydnwch a'u hyblygrwydd yn ystod yr amseroedd hyn;
- 393.3 bod Brexit yn parhau i fod yn faes o ansicrwydd a bod y Brifysgol wedi sefydlu Grŵp Cynlluniau wrth gefn ar gyfer Brexit i fynd i'r afael â'r holl bethau anhysbys yn y maes hwn ac y byddai hyn yn parhau i weithredu tra bod unrhyw gytundebau yn y dyfodol yn cael eu deall yn llawn;
- 393.4 bod y Cyngor yn parhau i fod yn hyderus bod y Brifysgol yn rhoi mesurau ar waith lle bynnag y bo modd i sicrhau ei chynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol;
- 393.5 bod y Cyngor wedi cyfarfod pedair gwaith ers cyfarfod blaenorol y Llys, ynghyd â thri chyfarfod arbennig arall i adolygu busnes brys a ddeilliodd o'r pandemig; Cyfarfu aelodau'r Cyngor yn rheolaidd hefyd i adolygu diweddariadau ar y rhagolygon ariannol wrth i oblygiadau niferoedd myfyrwyr a chymorth y llywodraeth ddod yn gliriach;
- 393.6 y diolchwyd i'r Prif Swyddog Ariannol a'i dîm am sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf yn ystod y flwyddyn;
- 393.7 bod creu a gweithredu gwasanaeth profi'r Brifysgol wedi creu argraff fawr ar y Cyngor;
- 393.8 bod y Cyngor wedi cymeradwyo ail-gastio strategaeth Y Ffordd Ymlaen 2018-2023 y Brifysgol ac yn falch o weld y ffocws parhaus ar les;
- 393.9 bod y Cyngor wedi cymeradwyo Strategaeth Ehangu Cyfranogiad a Strategaeth Iaith Gymraeg;
- 393.10 bod y Cyngor wedi adolygu dogfennau allweddol sy'n ymwneud ag Undeb y Myfyrwyr;
- 393.11 bod canlyniadau Adolygiad Powell o drefniadau llywodraethu wedi'u trafod ac y byddent nawr yn cael eu rhoi ar waith; ochr yn ochr â hyn, roedd adolygiad o ganlyniadau Adolygiad Camm wedi'i gynnal ac roedd y Cyngor wedi cymeradwyo cytundeb i Siarter Llywodraethu Prifysgolion yng Nghymru ac Ymrwymiad i Weithredu, sy'n ffurfio ymateb y sector;
- 393.12 bod y Cyngor wedi croesawu nifer o aelodau newydd ers cyfarfod diwethaf y Llys;
- 393.13 diolchwyd i bawb a gyfrannodd at y Cyngor a'r Brifysgol yn ystod 2020.

## **394 Adroddiad a Datganiad Blynyddol o faterion ariannol y Brifysgol**

Dangoswyd ffilm fer yn dangos gwasanaeth sgrinio'r Brifysgol. Yna, darparodd yr Is-Ganghellor adroddiad ar yr Adroddiad Blynyddol. Gwahoddwyd aelodau'r Llys i ofyn cwestiynau i'r Is-Ganghellor ar ddiwedd ei gyflwyniad.

Yna, gwahoddodd y Canghellor y Prif Swyddog Ariannol, Mr Robert Williams, i gyflwyno ei adroddiad ar y datganiad blynyddol ar Faterion Ariannol y Brifysgol. Gwahoddwyd aelodau'r Llys i ofyn cwestiynau ar ddiwedd cyflwyniad y Prif Swyddog Ariannol.

Nodwyd

#### Cyflwyniad gan yr Is-Ganghellor

- 394.1 bod y Brifysgol wedi rheoli effeithiau pandemig COVID-19 yn llwyddiannus ac wedi sefydlu tîm gorchymyn Aur ac Arian i reoli'r argyfwng cychwynnol; wrth i amser fynd rhagddo, rhoddwyd Grŵp Tasg gweithredol hefyd ar waith i reoli busnes fel arfer;
- 394.1 bod y Brifysgol, oherwydd ymddangosiad yr amrywiad newydd ac yn dilyn cyngor gwyddonol mewnol, wedi gohirio aildechrau addysgu ar y safle i bawb tan o leiaf 22 Chwefror 2021 a bod y dyddiad hwnnw wedi cael ei adolygu'n gyson;
- 394.1 bod y Brifysgol yn chwarae rhan flaenllaw wrth olrhain yr amrywiad newydd trwy ei gwasanaethau labordy ei hun;
- 394.1 bod y Brifysgol wedi rhagori ar ei thargedau derbyn myfyrwyr ym mhob maes;
- 394.1 y bu'r lefel uchaf erioed o ddyfarniadau incwm ymchwil, sef cyfanswm o dros £150m;
- 394.1 bod gwaith wedi arafu ar brosiectau cyfalaf oherwydd y pandemig, ond heb ddod i ben, a bod y rhain yn parhau i symud ymlaen;
- 394.1 bod y Brifysgol wedi troi'n gyflym ac yn llwyddiannus at gyflwyno addysgu ac asesiadau yn rhithwir a diolchwyd i staff a myfyrwyr am eu gwaith caled a'u cydweithrediad;
- 394.1 y diolchwyd i gydweithwyr sy'n gweithio yn y Gwasanaethau Proffesiynol a oedd yn cefnogi myfyrwyr sydd ar y safle ar hyn o bryd ac yn llety'r Brifysgol;
- 394.1 bod tirwedd wleidyddol y dyfodol yn ansicr, yn enwedig mewn perthynas ag effaith Brexit ar gynlluniau megis Turing a Horizon Ewrop ac Etholiadau'r Senedd yn 2021 a fyddai'n gweld Gweinidog Addysg newydd;
- 394.1 bod ansicrwydd yn parhau hefyd ynghylch Strategaeth Addysg Ryngwladol y DU a chanlyniadau adroddiad Augar;
- 394.1 mewn ymateb i gwestiwn, y bu llawer iawn o adborth cadarnhaol gan staff a myfyrwyr ynghylch darparu addysgu'n ddigidol a byddai'r Brifysgol yn edrych ar sut i ymgorffori'r pethau cadarnhaol hyn wrth symud ymlaen;
- 394.1 mewn ymateb i gwestiwn, er bod heriau wedi bod o ran y gallu i ymgymryd ag ymchwil (er enghraifft drwy fethu â chael mynediad at gyfleusterau), y gobaith oedd y byddai'r mwyafrif o'r heriau hyn yn cael

eu goresgyn cyn gynted ag y byddai cyfyngiadau pandemig yn cael eu codi;

- 394.1 bod y Brifysgol eisoes yn adolygu effaith y pandemig yn y tymor hwy a'r ffordd orau o gynnig addysg i fyfyrwyr yn y dyfodol;

#### Cyflwyniad gan y Prif Swyddog Ariannol

- 394.1 bod y Brifysgol wedi gorffen y flwyddyn ariannol ym mis Gorffennaf 2020 gyda gwarged gweithredu o £14.1m; yn dilyn addasiad ar gyfer eitemau un-tro nad ydynt yn arian parod, yn bennaf yn ymwneud â phensiynau, y cyfanswm gwarged a adroddwyd oedd £31m;

- 394.1 o ystyried y cyfyngiadau drwy gydol y flwyddyn, gwelodd y Brifysgol lai o incwm o feysydd ymchwil a masnachol megis preswylfeydd ac arlwyo;

- 394.1 bod cyfanswm yr incwm ar gyfer y flwyddyn wedi cynyddu 5.6%, yn bennaf oherwydd cynnydd mewn incwm ffioedd dysgu a grantiau CCAUC;

- 394.1 bod gwariant gweithredu hefyd wedi cynyddu 1.8%, oherwydd cynnydd yng nghostau staff a chostau yn gysylltiedig â sicrhau bod y safle yn ddiogel rhag COVID;

- 394.1 bod ffigurau myfyrwyr ôl-raddedig wedi cynyddu dros 30% yn y pedair blynedd diwethaf, a chynyddwyd ffigurau myfyrwyr israddedig o 10%; yn yr un modd, cynyddodd ffigurau myfyrwyr rhyngwladol dros 30% a myfyrwyr cartref/UE o 11% yn yr un cyfnod;

- 394.1 bod grantiau rheolaidd i'r Brifysgol wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, a dim ond wedi dechrau cynyddu o 2018/19;

- 394.1 bod niferoedd staff wedi gostwng, ond bod costau staff wedi cynyddu 5.4%, yn bennaf oherwydd cynnydd mewn cyfraniadau pensiwn.

### **395 Dyddiad cyfarfod nesaf y Llys**

Gofynnwyd i Aelodau'r Llys nodi y byddai cyfarfod nesaf y Llys yn cael ei gynnal ar 26 Ionawr 2022.

### **396 Unrhyw fater arall**

Nodwyd

- 396.1 bod dolenni'n cael eu rhannu ag aelodau'r Llys yn ymwneud â digwyddiadau a gynhaliwyd gan y tîm cynfyfyrwyr.

**Presenoldeb (P = Presennol, A = Ymddiheuriad)****Crynodeb o bresenoldeb:**

Presennol	83
Ymddiheuriadau	21
Absennol	42

**Aelodau**

Y Farwnes Jenny Randerson	P	Mr Stephen Lawrence	
Yr Athro Colin Riordan	P	Mr Gethin Lewis	
Brigadydd Robert Aitken	P	Glyn Lloyd	A
Yr Athro Rudolf Allemann	A	Ann Lloyd	
Yr Athro Paul Allin	P	Syr Richard Lloyd Jones	
Pedr ap Llwyd	A	Yr Athro Marcus Longley	P
Yr Athro Rachel Ashworth	P	Mrs Roberta Louise Fleet	P
Dr Duncan Azzopardi		Dr Steven Luke	A
Mr Paul Baston	P	Paul Lynam	P
Kellie Beirne	P	Y Cynghorydd Norma Mackie	
Oliver Birrell		Trudy McBride	P
Anneka Bisi	P	Mr Thomas McGarry	P
Scott Bowers	P	Cynghorydd Rod Mckerlich	A
Dr Walter Brooks		Yr Athro Donna Mead	
Yr Athro Marc Buehner	P	Ms Morfudd Meredith	P
Mr Ricardo Calil	P	Ms Emmajane Milton	P
Ms Cerian Callaway	P	Nigel Monaghan	A
Mairead Canavan		Ian Morgan	A
Jane Chukwu	P	James Myatt	P
Gareth Collier	A	Mr Richard N Roberts	P
Mr Christopher Court-Wallace		Mr J Nelsey	
Yr Athro Trevor Dale	A	Dr Joanna Newman	A
Dr Angharad Davies		Henry Newman	P
Dr Jane Davies	P	Ms Karen O'Brien	P
Norma Davies		Laura O'Keefe	P
Hannah Doe	P	Yr Athro Stuart Palmer	P
Mr James Dowden		Eluned Parrott	P
Y Parchedig Dr Jeremy Duff		Ms Rhian Perridge	P
Georgina East	P	Yr Athro Tim Phillips	P
Alistair Edwardes		Jude Pickett	P
Dr Izidin el Kalak	P	Parchedig Ganon Gareth Powell	P
Ms Jessica Evans		Ms Rekha Puri	A
Luke Evans	P	Greg Pycroft	P
Rhys Evans	A	Gary Rees	P
Tomos Evans	P	Mr Len Richards	
Ms Judith Fabian	P	Sebastian Ripley	P
Yr Athro Fonesig Janet Finch		Dr Josh Robinson	
Ms Angela Foster-Swales	P	Gemma Robinson	P
Mr Matthew Garrett		Mr David Rowlands	
Mr Asif Ghaffar		Dr Pretty Sagoo	A
Tony Goddard		Mrs Sarah Saunders	P
Tom Gough		Mr John Shakeshaft	P
Yr Athro Kim Graham		Mr David Simmons	P
Bryn Griffiths		Y Barnwr Ray Singh	P

Susan Gwyer-Roberts	P	Dr Andy Skyrme	
Ms Katie Hall	A	Dr Henrietta Standley	P
Yr Athro Ken Hamilton		Yr Athro Heather Stevens	P
Mr Michael Hampson	A	Mr P Taylor	
Ms Karen Harvey-Cooke	P	Dr Christoph Teufel	
Stuart Hay		Ms Grace Thomas	A
Yr Athro Mary Heimann		Claire Tilley	P
Mr Calum Higgins	P	Dr Onur Tosun	P
Mr Andrew Hobbs	P	Dr Laurence Totelin	P
Yr Athro Karen Holford	P	Dr Gabe Treharne	P
Mair Hopkin	P	Dr Yu-Hsuan Tsai	
Ms Bethan John	A	Sara Turner	P
Yr Athro Ros John	P	Chris Turner	P
Mr Chris Jones	P	Prif Gwnstabl Jeremy Vaughan	P
Clare Jones		Yr Athro Peter Vaughan	P
Dr Chris Jones		Susie Ventris-Field	
Mr DK Jones		Ms Genna Vizard	P
Ms Jenni Jones-Annetts	P	Dr Janet Wademan	P
Ms Jan Juillerat	A	Mr Stephen Watts	
Parch Dr Edward Kaneen	P	Yr Athro Ian Weeks	P
Katie Kelly	P	Helen Whyley	A
Zoe King	P	Y Cynghorydd Joel Williams	
Alan King	A	Dr Lynn Williams	A
Mr Michael Lakin	P	Mrs Agnes Xavier-Phillips	P

**Swyddogion:** Rashi Jain (Ysgrifennydd y Brifysgol), Robert Williams (Prif Swyddog Ariannol).

**Yn Bresennol:** Katy Dale (cofnodydd), Robin Hughes, Sue Midha, Claire Morgan, TJ Rawlinson, Claire Sanders a Lorna Turner.